artist y flwyddyn cymru 2012

FFURFLEN GAIS Y GYSTADLEUAETH

Yr Arddangosfa 24 Mehefin - 6 Awst
Neuadd Dewi Sant, Caerdydd

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau - 22 Chwefror 2012

Ffôn: 029 2087 8706
Ffacs: 029 2087 8550
e-bost: rcayford@cardiff.gov.uk

CARDIFF CAERDYDD

St David's Hall
Neuadd Dewi Sant

Sylfaenwyd Cystadleuaeth Artist y Flwyddyn Cymru yn ystod blwyddyn y mileniwm er mwyn hybu a mawrygu'r cyfoeth o allu artistig sydd yng Nghymru. Digwyddiad untro oedd y bwriad yn wreiddiol ond mae'r gystadleuaeth bellach ar ei deuddegfed flwyddyn ar ddeg. Fe'i cychwynnwyd gan Neuadd Dewi Sant ac mae'n cynnig llwyfan gwerthfawr er mwyn i artistiaid arddangos eu gwaith yng nghalon prifddinas Cymru.

WELSH ARTIST OF THE YEAR
ARTIST Y FLWYDDYN CYMRU
2012

DETHOL

Mae'r arddangosfa'n agored i:
a) Unrhyw artistiaid dros 18 oed, sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.
b) Unrhyw artistiaid o Gymry, sy'n byw yn y DU.
Bydd yr arddangosfa'n cynnwys gwaith a ddetholir gan y beirniaid.
Mae peintiadau, lluniadau a phrintiau gwreiddiol (gan gynnwys gwaith digidol a ffotograffiaeth), cerflunwaith, cerameg, pren, gwydr, tecstilau, gemwaith a fideo/animeiddio yn gymwys. Gellir dethol tua 110 o gelfweithiau a chreffiweithiau i ffurfio'r arddangosfa. Ceir cyflwyno mathau eraill o gelfyddyd trwy gytundeb.

NODIADAU AC AMODAU YMGYNNIG

1. Ceir cynnig peintiadau, lluniadau a phrintiau gwreiddiol (gan gynnwys ffotograffiaeth ddigidol), cerflunwaith, cerameg, pren a gemwaith. Dylai cynigion 2D fod wedi'u llunio i grogi ar y pared ac i fargodi dim mwy na chwe modfedd. Ceir cyflwyno fideo neu animeiddiad trwy gytundeb.

2. Caiff yr artistiaid gynnig un gwaith yn unig. Dim ond gweithiau gwreiddiol a diweddar sy'n gymwys. h.y. a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Gall celfyddyd gymhwysol fod yn sawl darn sy'n cyfrif fel un cynnig.

3. Rhaid i'r gweithiau i gyd fod ar werth.

4. Rhaid i gynigion 2D beidio â bod yn fwy na 36 modfedd (91.5 cm) yn eu mesur mwyaf gan gynwys y ffrâm, gweithiau bychain a gynigir dim llai na 12 x 10 modfedd (30 x 25cm). Rhaid i'r gweithiau i gyd fod wedi'u fframio hyd at safon broffesiynol neu'n addas ar gyfer eu harddangos heb eu haltro ymhellach. Rhaid i blatiau drych fod wedi'u gosod hanner ffordd i fyny'r ffrâm ac wedi'u troi at i mewn er mwyn eu cludo'n ddiogel. Mae yna hyn a hyn o lefydd digon mawr i waith 2D mwy na 36 modfedd mewn unrhyw gyfeiriad. Cysylltwch â Ruth Cayford, y Swyddog Arddangosfeydd i drafod cyflwyno gwaith mwy, mae ei dderbyn fel y gwêl yn dda'r Swyddog Arddangosfeydd.

5. Rhaid i'r gweithiau i gyd fod wedi'u marcio'n glir â'r un manylion â'r ffurflen gais ar du chwith y gwaith, â label glynu (a wnewch chi beidio â defnyddio'r ffurflen gais yn label). Rhaid i label ychwanegol fod i'w weld yn glir ar y deunydd lapio. Rhaid tynnu'r deunydd lapio i gyd cyn cyflwyno gweithiau ym man casglu Caerdydd. Pan gasglir y gweithiau rhaid i'r artistiaid lapio eu gwaith eu hunain.

6. Rhaid i'r celfweithiau i gyd fod wedi'u lapio'n ddiogel mewn dull pecyn swigod y gellir ei ailddefnyddio, ar wahân i Gaerdydd, gweler amod 5.

7. Rhaid i gynigion cerflunwaith, cerameg, pren, gwydr, tecstilau neu emwaith beidio â mynd â mwy o le na 15 modfedd (38cm) o uchdwr a 12 modfedd o ddyfuder/o led (30cm) ar gyfer eu harddangos mewn blwch gwydr. Rhaid i'r cynigion fod wedi'u lapio'n ddiogel mewn papur swigod a bod mewn bocsys i'w cludo'n ddiogel a chanddyn nhw labeli clir. A wnewch chi ddarparu cyfarwyddiadau arddangos neu grogi os ydi'n briodol. Gellir gwneud rhai eithriadau yn achos gweithiau mwy trwy gytundeb. Mae yna hyn a hyn o blinthiau a blychau gwydr sy'n dal gwaith mwy, mae'r penderfyniadau hyn fel y gwêl yn dda'r Swyddog Arddangosfeydd.

8. Rhaid i'r artistiaid yswirio eu gweithiau eu hunain tra maen nhw'n cael eu cludo, a thra maen nhw'n cael eu storio yn y mannau casglu.

9. Bydd gweithiau sydd heb eu gwerthu ar gael o'ch man casglu cyntaf chi ym mis Awst, y dyddiad i'w gadarnhau. Oherwydd diffyg lle storio bydd unrhyw weithiau sydd heb eu casglu yn dwyn yn eu sgîl dâl storio o £10.

10. A wnewch chi ddarparu C.V. cyfredol a datganiad at ddibenion cyhoeddusrwydd.

11. A wnewch chi dicio'r bocs ar y ffurflen gais os oes gennych chi unrhyw wrthwynebiad i ni drosglwyddo eich cyfeiriad i unrhyw aelod o'r cyhoedd y byddai'n dda ganddo gysylltu â chi.

Y WOBR

Bydd enillydd Artist y Flwyddyn Cymru yn eunill £2000.
Bydd yna gategoriau gwobrwyo dros ben ar gyfer Peintio, Gwneud Printiau, Lluniadu, Ffotograffiaeth, Celfyddyd Gymhwysol, Cerflunwaith a gwobr myfyrwyr.

Y PANEL DETHOL 2012

Carwyn Evans - Artist
Peter Finnemore – Artist
Karen MacKinnon – Curadur Arddangosfeydd Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe
Jacqueline Poncelet - Artist
Ruth Cayford - Curadur, Neuadd Dewi Sant

FFURFLENNI CAIS

Rhaid llenwi'r ffurflenni cais a'u hanfon yn eu holau i'r Swyddfa Arddangosfeydd, Neuadd Dewi Sant erbyn dydd Mercher 22 Chwefror 2012. Fydd ffurflenni cais ddaw i law ar ôl y dyddiad yma ddim yn ddilys.

DANFON GWEITHIAU / MANNAU CASGLU

Ceir trosglwyddo gweithiau yn y canolfannau casglu sy'n dilyn. A wnewch chi nodi y bydd yr oriau neu'r dyddiadau mynediad hwyrach yn amrywio fymryn o'r naill oedfan i'r llall. A wnewch chi ddweud yn glir pa fan casglu rydych chi'n ei ddefnyddio.

MAN ARDDANGOS NEUADD DEWI SANT,
Yr Aes, Caerdydd.
CF10 1AH
Ffôn: 029 2087 8706
dydd Iau 12 Ebrill 2012
9.30am - 4pm

YR ACADEMI FRENHINOL GYMREIG,
Lôn y Goron, Conwy.
LL32 8AN
Ffôn: 01492 593413
dydd Mawrth 3 Ebrill 2012
10.30am - 4. 30pm

PORTHMADOG. ORIEL ROB PIERCY,
Heol y Wyddfa, Porthmadog,
Gwynedd
LL49 9BT
Ffôn: 01766 513833
dydd Mawrth 3 Ebrill 2012
10am - 4pm

LLYFRGELL CAERFYRDDIN,
Heol San Pedr, Caerfyrddin.
SA31 1LN
Ffôn: 01267 230873
dydd Llun 2 Ebrill 2012
10am - 1pm YN BRYDLON
Fydd Caerfyrddin ddim yn derbyn cynigion hwyr





DANFON GWEITHIAU / MANNAU CASGLU

Bydd staff ar ddyletswydd ym mhob canolfan i gofrestru a storio'r gweithiau. Am ragor o wybodaeth a wnewch chi gysylltu â: Ruth Cayford, y Swyddog Arddangosfeydd, Orielau Cynteddau Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd CF10 1AH.
Ffôn: 029 2087 8706 Ffacs: 029 2087 8550.

DYCHWELYD A CHASGLU GWEITHIAU

Dychwelyd a chasglu gweithiau – rhoddir gwybod i'r artistiaid i gyd am benderfyniad y beirniaid erbyn Ebrill 6ed a rhaid i'r ymgeiswyr aflwyddiannus gasglu eu gweithiau o'r mannau casglu fel sy'n dilyn. Caerdydd 27 Ebrill, Caerfyrddin i'w gadarnhau, Conwy 9 Mai, Porthmadog 9 Mai. Rhoddir yr oriau ar y llythyrau hysbysu. Bydd y llythyr hysbysu yn gyfwerth â derbynneb ar gyfer dychwelyd gweithiau a rhaid ei gyflwyno pan gasglir y gweithiau.

GWERTHU GWEITHIAU

Neuadd Dewi Sant fydd yn trin a thrafod holl werthu'r gweithiau sy'n rhan o'r arddangosfa ar ran yr artistiaid. Codir comisiwn o 40% (yn cynnwys TAW) ar werthiannau. Ni ellir rhyddhau gweithiau tan ddiwedd yr arddangosfa.

YSWIRIANT

Cyflwynir gweithiau ar fenter y perchennog. Mae'n un o amodau ymgynnig neu gyflwyno na fydd y trefnwyr ddim yn atebol dros unrhyw golled neu niwed, sut bynnag y'i hachosir, i weithiau'r artistiaid yn ystod eu cludo i'r arddangosfa ac yn eu holau a thra byddan nhw yn y canolfannau casglu, er y byddwn yn fawr ein gofal hyd ag y mae modd. Bydd y gweithiau a ddewisir ar gyfer yr arddangosfa yn cael eu hyswirio gan Neuadd Dewi Sant tra byddan nhw'n cael eu storio yno (trwy gydol yr arddangosfa) ac ar ddangos yn Orielau'r Cynteddau, ar Lefelau 1, 2, 3 & 4. (Dim ond hyd at werth £2000 y celfwaith y gallwn ni eu hyswirio)

FFRAMIAU A LAPIO

Rhaid i bob gwaith fod wedi ei ddrych-blatio. Gweler pwynt 4. Rhaid i blatiau drych i gyd fod wedi eu gosod yn union yn y canol (ac wedi eu troi tuag at i mewn er mwyn eu cludo'n ddiogel). Rhaid i'r labeli fod i'w gweld yn glir hyd yn oed pan fydd y gweithiau wedi'u lapio. Rydym yn gofyn i'r ymgeiswyr ddefnyddio cyn lleied o ddeunydd lapio ag y bo modd ar gyfer gwaith 2D, ond i roi sylw neilltuol i'r corneli a'r fframiau. Rhaid i gynigion crefft fod wedi'u lapio'n ddiogel â phapur swigod ac allwn ni ddim sicrhau anfon yn ei ôl yr un papur lapio.

CLUDIANT

Bydd y gweithiau i gyd yn cael eu cludo'n broffesiynol gan Neuadd Dewi Sant rhwng yr oriel a'r man casglu. Fydd yr artist ddim yn mynd i unrhyw gost.

AGORIAD SWYDDOGOL

Bydd yr Arddangosfa ar fynd ddydd Sul 24 Mehefin 2012 yn Neuadd Dewi Sant 2.30-4.30pm.

BRAINT YR ARDDANGOSWYR

Bydd yr arddangoswyr yn cael gwahoddiad i arddangosiad preifat yr arddangosfa. Fe fyddan nhw hefyd yn cael copi cyfarch o'r catalog.

ENILLWYR GWOBRAU

Cyhoeddir Enillwyr y Gwobrau yn yr agoriad swyddogol ddydd Sul 24 Mehefin 2012. (Fyddwn ni ddim yn rhoi gwybod i enillwyr y gwobrau yrnlaen llaw). Byddai'n dda gennym weld yr artistiaid i gyd yn bresennol yn y seremoni agoriadol. Am ragor o wybodaeth a wnewch chi gysylltu â:-
Ruth Cayford, y Swyddog Arddangosfeydd, Mannau Arddangos,
Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd CF10 1AH
rcayford@cardiff.gov.uk
Ffôn: 029 2087 8706. Ffacs: 029 2087 8550.